Gorchmynion Didynnu o Enillion Treth y Cyngor

Canllawiau i Gyflogwyr

Isadran Treth y Cyngor,
Tŷ Bronwydd, Porth CF39 9DL
Ffôn: 01443 680676
Ffacs: 01443 680661

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

PRINT TOO SMALL?

If you require this in large print, braille or talking tape please telephone 01443 681081

RHY FÂN I'W DDARLLEN?

Os hoffech chi gael fersiwn print bras, braille neu gasét sain o'r cynhoeddiad, ffoniwch 01443 681081

Cyflwyniad

1. Mae'r nodyn hwn wedi ei baratoi i helpu cyflogwyr i weinyddu Gorchmynion Atal Cyflog Treth y Cyngor (GACTC). Gall CIACTC gael eu rhoi gan yr awdurdodau lleol yn sgîl gorchymyn dyled mewn perthynas a dyled Treth y Cyngor yn unol a Rheoliadau Treth y Cyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 (OS Rhif 613), fel y'u diwygiwyd. Mae'r nodyn yn amlinellu'r gweithdrefnau o dan sylw swyddogaeth y cyflogwr, y dyledwr a'r awdurdod lleol. Mae cyngor manw, ar ffurf cwestiynau ac atebion, yn Atodiad B.

2. Mae GACTC yn ddogfen gyfreithiol ac mae'n rhoi dyletswyddau penodol ar y cyflogwr a'r dyledwr fel ei gilydd. Mae'r dyletswyddau hyn yn cael eu hegluro yn y nodyn. Gallai methu a chyflawni'r dyletswyddau hyn arwain at ddirwy.

3. Er eu bod yn dilyn egwyddorion bras GAC sy'n deillio o Ddeddf 'Atal Cyflogau', 1971 yn gymaint a bod didyniad rheolaidd i'w gymryd o'r enillion net, os dyma'r GACTC cyntaf yr ydych chi wedi'i gael, byddwch yn sylwi bod nifer o wahaniaethau pwysig. Er enghraifft, yn achos GACTC mae'r didyniad yn cael ei gyfrifo gan y cyflogwr yn hytrach na'i bennu gan y llys. Mae Atodiad B yn amlinellu'r camau sydd i'w cymryd pan fydd mwy nag un gorchymyn o'r fath wedi'i gyflwyno.

Amlinelliad o'r Weithdrefn

4. Mae'r gyfres o ddigwyddiadau sy'n arwain at roi GACTC fel a ganlyn:

   (a) pan fydd awdurdod lleol yn rhoi bil treth y cyngor a nodyn atgoffa ond heb fod yn cael taliad, gall wneud cais i Lys Ynadon am wŷs yn cyfarwyddo'r sawl sy'n ei dderbyn i ymddangos gerbron y llys i esbonio pam nad yw'r dreth wedi'i thalu;

   (b) os profir na chafwyd taliad, bydd y llys yn rhoi gorchymyn dyled am dreth y cyngor sy'n daladwy, ynghyd âr costau sydd wedi'u tynnu gan yr awdurdod lleol wrth sicrhau'r gorchymyn dyled. Ar ol iddo sicrhau'r gorchymyn dyled, mae gan yr awdurdod lleol nifer o ddewisiadau, gan gynnwys atal o'r cyflog, ar gyfer adennill y swm sydd wedi'i ddatgan yn y gorchymyn dyled;

   (c) os bydd o'r farn mai atal o'r cyflog yw'r ateb priodol, bydd yr awdurdod yn rhoi GACTC i'r cyflogwr y mae'n credu bod y dyledwr yn gweithio iddo, gan anfon copi o'r gorchymyn at y dyledwr. Mae'r gorchymyn yn nodi swm treth y cyngor sydd heb ei dalu ac yn ei gwneud yn ofynnol bod didyniadau'n cael eu cyfrifo yn unol âr rheoliadau o'r enillion net. Mae'r gorchymyn ar ffurf safonol a bennwyd mewn rheoliadau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd gyson. Rhaid iddi gynnwys y tablau didyniadau penodedig a chopi o'r rheoliadau sy'n ymdrin â GACTC. Ceir copi o'r gorchymyn a'r dogfennau y mae'n angenrheidiol eu hamgau yn Atodiad C.

Yr hyn y mae rhaid i'r cyflogywr ei wneud

5. Pan ddaw GACDG i law, rhaid i'r cyflogwr:

   - ceisio gwneud didyniadau o enillion net y gweithiwr o dan y GACDG cyn gynted â phosibl (ceir diffiniad o enillion net yn Atodiad A);

   - cyfrifo'r didyniadau drwy ddefnyddio'r tablau yn y rheoliadau:

   - dweud wrth y gweithiwr am gyfanswm y taliadau sydd i'w gwneud o dan y gorchymyn, fel rheol ar yr un pryd â rhoi ei ddatganiad tâl; a

   - talu'r didyniadau i'r awdurdod lleol erbyn y 18fed diwrnod o'r mis yn dilyn y mis y gwnaed y didyniad fan pellaf.

6. Gall y cyflogwr dynnu £1 ychwanegol o dâl ei weithiwr mewn perthynas â phob didyniad tuag at ei gostau gweinyddol ei hun.

Hysbysiadau

7. Mae'n ofynnol i'r cyflogwr hysbysu'r awdurdod lleol am rai materion, a gall gael ei ddirwyo am fethu â gwneud hynny. Pan fydd y cyflogwr yn cael gorchymyn mewn perthynas â rhywun nad yw'n ei gyflogi, dylai ddweud wrth yr awdurdod lleol cyn pen 14 diwrnod. Yn yr un modd dylai ddweud wrth yr awdurdod pan fydd dyledwr y mae GACDG ar waith ar ei gyfer yn ymadael â'i gyflogaeth, unwaith eto cyn pen 14 diwrnod. Dylai'r cyflogwr ddweud wrth yr awdurdod lleol perthnasol hefyd os bydd unrhyw un sy'n destun i GACDG yn dod yn weithiwr iddo. Dylid gwneud hyn cyn pen 14 diwrnod ar ôl i'r dyledwr ddod yn weithiwr, neu ar ôl y dyddiad pan fydd y cyflogwr yn dod i wybod bod gorchymyn mewn grym yn erbyn y gweithiwr, p'un bynnag sydd ddiweddaraf.

Yr hyn y mae rhaid i'r dyledwr ei wneud

8. Rhaid i ddyledwr ddweud wrth yr awdurdod a wnaeth y GACDG os bydd yn newid cyflogaeth. Wrth hysbysu'r cyfryw newid dylai'r dyledwr roi manylion, cyhyd ag y gall, am ei enillion; y didyniadau a ddisgwylir o'r enillion mewn perthynas â threth incwm, yswiriant gwladol a blwydd-dal ymddeol; enw a chyfeiriad y cyflogwr a'i rif gwaith neu rif adnabod. Rhaid rhoi'r wybodaeth hon cyn pen 14 diwrnod ar ôl newid cyflogaeth. Fe allai dyledwyr wynebu dirwy os byddant yn methu â hysbysu'r awdurdodau lleol fel hyn.

Yr hyn y mae rhaid i'r awdurdod ei wneud

9. Rhaid i awdurdod ddweud wrth y cyflogwr pan fydd y swm cyfan y mae GACTC yn cyfeirio ato wedi'i dalu, gan gynnwys pan na wnaed y taliad drwy gyfrwng GACTC.

10. Gall awdurdod, o'i ben a'i bastwn ei hun, neu yn sgîl cais gan y dyledwr neu gyflogwr y dyledwr, wneud gorchymyn sy'n gollwng y GCATC. Pan fydd GCATC yn cael ei ollwng, dylai'r awdurdod hysbysu'r cyflogwr.

Cyngor mwy manwl

11. Mae Atodiad A yn nodi rhai cwestiynau ac atebion sy'n ymdrin â GACTC yn fanylach. Os oes gennych ragor o gwestiynau, cysylltwch ag Isadran Adran Treth y Cyngor yn Tŷ Bronwydd, Porth, Rhondda. CF39 9DL. Os oes gennych anawsterau na all yr awdurdod sydd wedi gwneud y gorchymyn eu datrys, mae cyngor pellach ar gael o Uned Incwm Llywodraeth Leol, Swyddfa'r Cynulliad, 4ydd Llawr, Parc Cathays, Caerdydd CFl 3NQ (ffôn: 029 20823615).

Atodiad A
Gorchmynion Atal Cyflog Treth y Cyngor (GACTC) Cwestiynau ac Atebion

1. Beth yw Gorchymyn Didynnu Treth y Cyngor?

Pan na thelir treth y cyngor, gall yr awdurdod lleol wneud cais i lys ynadon am orchymyn dyled yn erbyn y drwgdalwr. Os bydd llys yn rhoi gorchymyn dyled, mae gan yr awdurdod nifer o ddewisiadau ar gyfer adennill y swm sydd heb ei dalu. Gorchymyn Treth y Cyngor (GACTC) yw un o'r dewisiadau hyn. Bydd y GACTC ar ffurf a bennwyd yn y rheoliadau (gweler y copi yn Atodiad. Mae'n cynnwys enw'r dyledwr, ei rif cyflogres (os yw'n hysbys) a chyfeirnod yr awdurdod lleol. Mae'n cadarnhau bod y sawl sydd wedi'i enwi yn atebol am dreth y cyngor ac yn pennu swm treth y cyngor sydd eto i'w dalu. Dylai didyniadau yn unol â'r gorchymyn gael eu gwneud cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r gorchymyn ddod i law.

2. Pa ddyletswyddau mae'r Gorchymyn hwn yn eu gosod ar Gyflogwr?

Mae'r gorchymyn hwn yn ddogfen gyfreithiol ac mae'n rhoi dyletswyddau penodol ar gyflogwr, felly mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth yw'r egwyddorion sylfaenol. Nodir manylion eich dyletswyddau statudol ym mharagraff 13 isod.

Os yw'r sawl sy'n destun y gorchymyn yn gweithio i chi, dylech chi drefnu didyniadau o'i enillion fel yr esbonnir isod. Dylai'r didyniadau hyn ddechrau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r gorchymyn ddod i law. Yna dylai'r swm sydd wedi'i ddidynnu gael ei anfon i'r awdurdod erbyn y 18fed diwrnod o'r mis sy'n dilyn y mis y gwnaed y didyniad.

Yn ogystal â'r swm sydd i'w didynnu a'i thalu i'r awdurdod gallwch ddidynnu £1 bob tro oddi ar eich gweithiwr tuag at eich costau gweinyddol eich hun. Gyda phob didyniad dylech roi datganiad ysgrifenedig i'ch gweithiwr o'r swm cronnol sydd wedi'i ddidynnu, gan gynnwys unrhyw £1 a ddidynnwyd oddi ar eich gweithiwr mewn perthynas â'ch costau gweinyddu. Fel rheol gellir gwneud hyn wrth roi adroddiau tâl, ond, os na fydd hyn yn gyfleus, gellir gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd ar ôl gwneud y didyniad.

Os yw'r gweithiwr wedi symud neu heb fod yn eich cyflogaeth erioed, dylech chi hysbysu'r awdurdod a roes y gorchymyn cyn pen 14 diwrnod a bydd eich atebolrwydd chi i wneud unrhyw beth o dan y gorchymyn yn dod i ben.

3. Am faint mae'r Gorchymyn hwn i bara?

Dylai didyniadau gael eu gwneud bob diwrnod tâl nes bod y cyfanswm a bennir ar y gorchymyn wedi'i dalu i'r awdurdod; nes i'r gweithiwr ymadael a'ch cyflogaeth, neu nes i'r gorchymyn gael ei ollwng gan yr awdurdod. Pan fydd y gweithiwr yn ymadael â'ch cyflogaeth a chithau wedi hysbysu'r awdurdod lleol, nid oes angen i chi wneud dim pellach. Bydd rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno copi o'r gorchymyn i'r cyflogwr newydd a hwnnw'n nodi'r swm sydd ar ôl i'w didynnu.

4. Faint dylid ei ddidynnu?

Mae'r swm sydd i'w didynnu yn dibynnu ar gyfanswm enillion net y gweithiwr. Mae Atodiad yn cynnwys tablau sy'n pennu'r ganran sydd i'w didynnu yn ôl swm yr enillion net ac amlder y cyfnod talu

5. Beth yw enillion net?

I ddibenion y gorchmynion hyn, ystyr enillion net yw enillion ar ôl didynnu treth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol sylfaenol Dosbarth 1, cyfraniadau at flwydd-dal ymddeol ac unrhyw ddidyniad mae iddo flaenoriaeth uwch. Gweler paragraff 10 os yw'r gweithiwr yn cael tâl gwyliau.

6. Beth yw enillion?

Diffinnir enillion fel symiau sy'n daladwy yn:

- cyflog wythnosol neu fisol (gan gynnwys unrhyw ffioedd, bonws, comisiwn, tâl goramser neu unrhyw enillion eraill sy'n daladwy yn ychwanegol at y cyflog sy'n daladwy o dan gytundeb gwasanaeth).

- tâl salwch statudol.

Nid yw enillion yn cynwys:

- symiau sy'n daladwy gan adrannau cyhoeddus o Lywodraeth Gogledd Iwerddon neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol;

- tâl a lwfansau aelodau'r lluoedd arfog;

- budd-dal neu lwfansau sy'n daladwy o dan ofyniou unrhyw ddeddf mewn perthynas â nawdd cymdeithasol (mae hyn yn cynnwys tâl mamolaeth);

- lwfansau sy'n daladwy mewn perthynas ag anabledd; a

- cyflog sy'n daladwy i rywun megis morwr, ac eithrio morwr ar gwch pysgota.

7. Ai enillion yw Lwfansau Hyfforddiant Ieuenctid?

Nage.

8. Sut mae defnyddio'r tablau yn Atodiad B?

Mae colofn 1 o bob tabl yn rhoi manylion bandiau tâl sy'n cyfateb ag enillion net. Mae colofn 2 yn rhoi manylion canran yr enillion sydd i'w thynnu. Dewch o hyd i'r band enillion yng ngholofn 1 ac yna darllenwch ar draws i golofn 2 i weld y ganran ac yna cyfrifwch y swm sydd i'w didynnu.

9. Sut bydda i'n gwybod pa dabl i'w ddefnyddio?

Gan fod y mwyafrif o'r bobl yn cael eu talu yn rheolaidd bydd yn syml fel rheol ond fe fydd yna achosion o daliadau afreolaidd. Hwyrach y bydd yr enghreifftiau a restrir isod o gymorth i chi wrth benderfynu pa ddidyniadau i'w gwneud.

Wythnosol

Os yw'r dyledwr yn cael ei dalu'n wythnosol yna dylid gwneud didyniadau yn unol â Thabl A.

Misol

Os yw'r dyledwr yn cael ei dalu'n fisol yna dylid gwneud didyniadau yn unol â Thabl B.

Cyfnodau wythnosol eraill

Os yw'r dyledwr yn cael ei dalu mewn cyfnodau o nifer cyfan o wythnosau yna dylai'r enillion net gael eu rhannu â nifer yr wythnosau yn y cyfnod tâl. Yna dylid defnyddio Tabl A i gyfrifo'r didyniad wythnosol priodol a lluosi'r swm sy'n deillio o hynny â nifer yr wythnosau yn y cyfnod.

Mwy nag un mis

Os bydd rhywun yn cael ei dalu mewn cyfnodau o nifer cyfan o fisoedd dylai'r enillion net gael eu rhannu â nifer y misoedd yn y cyfnod tâl. Yna dylid defnyddio Tabl B i gyfrifo'r didyniad misol priodol a lluosi'r swm sy'n deillio o hynny â nifer y misoedd yn y cyfnod.

Cyfnodau rheolaidd - heb fod yn wythnosau na misoedd cyfan

Os bydd y dyledwr yn cael ei dalu mewn cyfnodau rheolaidd, ond heb fod yn gyfnodau o nifer cyfan o wythnosau na misoedd, yna dylid rhannu'r enillion net â nifer y diwrnodau. Yna dylid defnyddio Tabl C i gyfrifo'r gyfradd ddyddiol briodol, ac yna lluosi honno â nifer y diwrnodau yn y cyfnod.

Dwy neu ragor o gyfresi o daliadau mewn cyfnodau rheolaidd

Os yw'r dyledwr yn cael ei dalu mewn dwy neu ragor o gyfresi a'r taliadau yn cael eu gwneud yn rheolaidd, yna dewiswch y gyfres gyda'r cyfnod byrraf rhwng y taliadau a defnyddiwch y tablau fel y disgrifir uchod. Yn ychwanegol, didynnwch 20% o'r enillion net sy'n daladwy ym mhob cyfres arall. Os yw'r gweithiwr yn cael ei dalu mewn dwy neu ragor o gyfresi a'r holl gyfnodau o'r un hyd, yna dewiswch un o'r rhain, gwnewch y didyniadau fel y disgrifir uchod, ac yn ychwanegol didynnwch 20% o'r enillion net sy'n daladwy ym mhob cyfres arall.

Enghraifft

Tâl net gweithiwr yw £150 yr wythnos a £600 y mis.

Tynnwch £10.50 am y tâl wythnosol a £120 am y tâl misol (h.y. 20% o £600).

Cyfnodau afreolaidd

Os yw'r gweithiwr yn cael ei dalu mewn cyfnodau afreolaidd dylid rhannu'r enillion net â nifer y diwrnodau ers y taliad diwethaf a defnyddio Tabl C i gyfrifo'r didyniadau dyddiol priodol, a'u lluosi yn eu tro â nifer y diwrnodau yn y cyfnod.

Enghraifft

Tâl net gweithiwr:

(a) £90 (o 1 Ebrill i 9 Ebrill - 9 diwrnod)
(b) £120 (o 10 Ebrill i 19 Ebrill - 10 diwrnod)
(c) £176 (o 20 Ebrill i 30 Ebrill -11 diwrnod)

Byddai'r didyniadau fel a ganlyn:

(a) 90/9 = £10. Didyniad dyddiol = £10 x 3% h.y. £0.30.
Didyniad i'w wneud am y cyfnod = 9 x £0.30 - £2.70.
(b) 120/10 = £12. Didyniad dyddiol = £12 x 3% h.y. £0.30.
Didyniad i'w wneud am y cyfnod = 10 x £0.36 = £3.60
(c) 176/11 = £16. Didyniad dyddiol = £16 x 5% h.y. £0.80.
Didyniad i'w wneud am y cyfnod = 11 x £0.80 = £8.80.

Cyfnodau rheolaidd ac afreolaidd

Os yw'r gweithiwr i gael enillion cyfnod rheolaidd ac enillion cyfnod afreolaidd ar yr un diwrnod talu, dylid cyfuno'r symiau hyn a'u trin fel enillion sy'n daladwy yn y cyfnod rheolaidd, gan ddefnyddio'r tabl priodol.

Enghraifft
Mae gweithiwr yn cael £250 yn dâl wythnosol net arferol. Yn ychwanegol, mae'n cael £350 bob 15 diwrnod am dasg wahanol. Ar gyfer enillion wythnosol y byddai'r didyniadau'n cael eu gwneud (tabl A) sef £250 + £350 = £600. Y gyfradd ddidynnu ar gyfer £600 yw 17% o'r £370 cyntaf a 50% o'r gweddill h.y. £62.90 + £115 = £177.90.

10. Beth ddylwn i ei dynnu os oes blaendâl ar gyfer Tâl Gwyliau?

Y swm sydd i'w ddidynnu yw agregiad y canlynol:

(a) y swm a fuasai wedi'i ddidynnu ar y diwrnod talu os na cheid unrhyw flaendal; a

(b) y symiau a fuasai wedi'u didynnu petai'r blaendal wedi'i dalu ar y diwrnod neu'r diwrnodau talu arferol.

Enghraifft

Mae gweithiwr yn cael £800 ar y diwrnod talu. Mae hyn yn cynnwys £300 am yr wythnos y mae'r diwrnod talu yn digwydd ynddi ac yn cynnwys goramser o £100; a £500 yn flaendal am bythefnos o wyliau h.y. pythefnos o dâl safonol o £250 yr wythnos. Y swm sydd i'w didynnu yw:

(17% o £300 = £51.00) + 12% o £250 x 2 = £60) = £111.00.

11. Sut dylwn i ymdrin â benthyciadau a wneir i ddibenion eraill?

Nid blaendaliadau tâl yw benthyciadau a roddir i brynu tocyn tymor, er enghraifft,neu i helpu wrth symud tŷ, ac ni ddylid eu cyfrif yn enillion.

Bydd y ffordd yr ymdrinnir ag ad-daliadau'r cyfryw fenthyciadau wrth gyfrifo didyniad yn dibynnu ar ddyddiad gwneud y GACTC:

i gyfrifo didyniad o dan GACTC a wnaed cyn 1 Ebrill 1995 neu wedi hynny, dylid lleihau'r enillion net yn ôl swm yr ad-daliad a wnaed i'r cyflogwr; ac yn achos GACDG a wnaed ar 1 Ebrill 1995 neu ar ôl hynny, dylid seilio didyniad y gorchymyn ar yr enillion net cyn i unrhyw fenthyciad gael ei ad-dalu.

12. Beth ddylwn i'i wneud os oes gorchymyn Didynnu o'r Cyflog mewn grym eisoes?

Gweler Atodiad C am fanylion llawn sut i ymdrin â gorchmynion lluosog. Er hynny, bydd yr enghreifftiau canlynol yn gofalu am fwyafrif o'r sefyllfaoedd.

(a) Os oes GACTC mewn grym eisoes bydd y GACTC newydd yn dal i gael ei ddefnyddio, yn nhrefn dyddiad, gyda'r gorchymyn diweddarach i'w gymhwyso at weddill yr enillion. Er hynny, os oes dau neu ragor o GACTC yn cael eu talu eisoes, yna ni ellir gweithredu unrhyw GACTC arall a dylid hysbysu'r awdurdod lleol am hynny.

(b) Os oes Gorchymyn y tâl cymunedol (GACTC) mewn grym yna bydd y GACTC newydd yn dal i gael ei ddefnyddio, yn nhrefn dyddiad, gyda'r gorchymyn diweddarach yn gael ei gymhwyso at weddill yr enillion. Serch hynny, yn wahanol i ran (a) uchod, sylwer mai un GACTC a ddylai gael ei weithredu ni waeth faint o GACTC, neu orchmynion eraill heblaw treth y cyngor, sydd eisoes mewn grym.

(c) Dylai unrhyw orchmynion o dan ofynion Ddeddf 1971 nad ydyn nhw'n flaenoriaeth gael eu cymhwyso (yn nhrefn dyddiad) ar ôl yr holl orchmynion eraill.

13. Dyletswyddau statudol ar gyflogwyr

Mae GACTC yn ddogfen gyfreithiol ac mae'n rhoi dyletswyddau penodol ar gyflogwyr a dyledwyr. Ceir crynodeb o'r dyletswyddau cyfreithiol hyn isod:

Gallai cyflogwr fod yn atebol i dalu dirwy os bydd:

(a) yn methu âg ufuddhau i'r gorchymyn oni all brofi bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i wneud hynny;

(b) yn methu â rhoi'r holl rhybuddion angenrheidiol mewn perthynas â'r GACTC;

(c) wrth roi rhybudd yn gwneud datganiad y mae'n gwybod ei fod anwir o ran manylion perthnasol neu'n ddi-hid yn gwneud datganiad sy'n anwir o ran manylion perthnasol.

14. Dyletswyddau statudol ar ddyledwyr

Gallai dyledwyr fod yn atebol i dalu dirwy am y canlynol:

(a) methu, heb esgus rhesymol, â rhoi gwybodaeth;

(b) gwneud datganiad y maen nhw'n gwybod ei fod yn anwir o ran manylyn perthnasol.

Atodiad B

RHEOLIADAU 32 A 38 I 42 RHEOLIADAU TRETH Y CYNGOR (GWEINYDDU A GORFODI) 1992, AC ATODLEN 4

Dehongli a Chymhwyso Rhan VI

32. – (1) Yn y Rhan hon -

mae “gorchymyn atal lwfansau” yn golygu gorchymyn dan reoliad 44;

mae “ gorchymyn atal enillion” yn golygu gorchymyn dan reoliad 37;

mae "gorchymyn codi tâl" yn golygu gorchymyn dan reoliad 50;

mae "dyledwr" yn golygu rhywun mae gorchymyn atebolrwydd wedi’i roi yn ei erbyn;

mae "enillion" yn golygu swm sy'n daladwy i weithiwr -

(a) trwy gyflog (gan gynnwys unrhyw gyflog, bonws, comisiwn, tâl goramser neu dâl a geir yn ychwanegol at gyflog neu sy'n daladwy dan gytundeb gwasanaeth), neu

(b) trwy dâl salwch statudol,

ond, i'r graddau y byddai'r canlynol fel arall yn cael eu cyfrif yn enillion, ni fyddant yn cael eu trin felly:

(i) symiau sy'n daladwy gan unrhyw adran gyhoeddus o Lywodraeth Gogledd Iwerddon neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol;

(ii) tâl neu lwfansau sy'n daladwy i'r dyledwr fel aelod o luoedd arfog Ei Mawrhydi;

(iii) lwfansau neu fuddion sy'n daladwy dan ofynion deddfau nawdd cymdeithasol (a);

(iv) lwfansau sy'n daladwy oherwydd anabledd neu anallu;

(v) cyflog sy'n daladwy i rywun megis morwr, ac eithrio cyflog sy'n daladwy iddo yn forwr ar gwch bysgota;

mae "gorchymyn atebolrwydd" yn golygu gorchymyn dan reoliad 34; ac

mae "enillion net" mewn perthynas â chyflogaeth yn golygu gweddill yr enillion taladwy dan gyflogaeth wedi i'r cyflogwr dynnu

(a) treth incwm;

(b) cyfraniadau sylfaenol Dosbarth 1 dan Ran 1 Deddf 'Cyfraniadau a Buddion Nawdd Cymdeithasol' 1992 (b);

(c) symiau i'w tynnu dan ofynion unrhyw ddeddf arall, neu'n unol â chais ysgrifenedig y dyledwr, i ddibenion cynllun pensiwn, sef unrhyw ddeddf, rheolau, gweithred neu offeryn arall sy'n canitáu talu blwydd-daliadau neu gyfandaliad -

(i) i'r bobl y bydd yr offeryn yn effeithio ar eu hymddeoliad ar oedran penodol neu trwy ddod yn analluog cyn hynny, neu

(ii) i gynrychiolwyr personol neu weddwon, perthnasau neu ddibynyddion pobl o'r fath ar eu marwolaeth neu fel arall,

boed hynny gyda buddion ychwanegol neu eraill neu beidio.

(2) Yn is-baragraff (v) diffiniad "enillion" ym mharagraff (1) uchod mae i ymadroddion a ddefnyddir yn Neddf 'Llongau Masnach' 1894 (c) yr un ystyr ag sydd iddyn nhw yn y ddeddf honno.

(3) Mae rheoliadau 33 i 53 i'w cymhwyso ar gyfer adfer swm sy'n daladwy i'r awdurdod sy'n anfon y bil dan Ran V ac sydd heb ei dalu; ond mae'r cais mewn perthynas â swm ble mae pobl yn gyfrifol ar y cyd ac ar wahân dan ofynion y Rhan honno yn ddarostyngedig i reoliad 54 (atebolrwydd ar y cyd ac ar wahân).

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at swm sydd yn daladwy ac sydd heb ei thalu yn cynnwys cyfeiriadau at swm sy'n rhan o swm fwy sy'n daladwy gyda'r rhan arall wedi'i thalu.

Didyniadau dan ofynion Gorchymyn Didynnu o Enillion

38. - (1) Yn amodol ar baragraffau (2) a (3), y swm i'w dynnu gan gyflogwr dan orchymyn didynnu o enillion ar unrhyw dâl fydd -

(a) pan fo enillion y dyledwr gan y cyflogwr yn daladwy'n wythnosol, swm cyfwerth â chanran briodol yr enillion net a fyddai'n daladwy fel arall ar y diwrnod cyflog hwnnw; ac i'r diben hwn y canran briodol yw canran (neu ganrannau) a bennir yng Ngholofn 2 Tabl A Atodlen 4 mewn perthynas â'r band yng Ngholofn 1 y Tabl hwnnw ar gyfer yr enillion;

(a) gweler y diffiniad yn adran 116(1) Deddf 'Cyllid Llywodraeth Leol' 1992

(b) Hynny ar bob un o'r diwrnodau cyflog lle bydd enillion sy'n daladwy ar gyfnodau afreolaidd a delir fydd 20 y cant o'r enillion net sy'n daladwy iddo ar y diwrnod hwnnw.

(b) pan fo enillion gan y cyflogwr yn daladwy'n fisol, swm cyfwerth â chanran briodol yr enillion net a fyddai'n daladwy fel arall ar y diwrnod cyflog hwnnw; ac i'r diben hwn y ganran briodol yw'r ganran (neu'r canrannau) a bennir yng Ngholofn 2 Tabl B Atodlen 4 mewn perthynas â'r band yng Ngholofn 1 y Tabl hwnnw ar gyfer yr enillion;

(c) pan fo'i enillion gan y cyflogwr yn daladwy am gyfnodau rheolaidd o wythnosau neu fisoedd cyfan, y swm a bennir trwy wneud y canlynol -

(i) cyfrif beth fyddai ei enillion net wythnosol neu fisol trwy rannu'r enillion net sy'n daladwy iddo gan y cyflogwr ar y diwrnod cyflog gyda'r rhif cyfan (o wythnosau neu fisoedd, yn ôl yr achos unigol),

(ii) cyfrif canran neu ganrannau a bennir yng Ngholofn 2 Tabl A (ar gyfer cyfanswm yr wythnosau) neu Dabl B (ar gyfer cyfanswm y misoedd) yn Atodlen 4 gyferbyn â'r band yng Ngholofn 1 y Tabl sy'n ymwneud â'r enillion net a gyfrifwyd dan baragraff (i), a

(iii) cyfrif swm sy'n gyfwerth â chanran (neu ganrannau) priodol yr enillion net a gyfrifwyd ar gyfer unrhyw un o'r wythnosau neu fisoedd hynny a lluosi'r swm hwnnw â chyfanswm yr wythnosau neu fisoedd, fel y bo'n briodol.

(2) Pan fo paragraff (1) i'w gymhwyso a'r swm i'w dalu i'r dyledwr ar ddiwrnod cyflog yn cynnwys taliad ymlaen llaw, y swm i'w dynnu ar y diwrnod cyflog hwnnw fydd cyfanswm y swm a fyddai'n daladwy dan baragraff (1) a -

(a) phan fyddai'r swm a dalwyd ymlaen llaw wedi'i dalu fel arall ar un diwrnod cyflog, y swm fyddai wedi'i dynnu ar y diwrnod hwnnw yn unol â pharagraff (1) os mai'r swm a dalwyd ymlaen llaw oedd swm yr enillion net ar y diwrnod hwnnw; neu

(b) pan fyddai'r swm a dalwyd ymlaen llaw wedi'i dalu fel arall ar fwy nag un diwrnod cyflog, y symiau fyddai wedi'u tynnu ar bob un o'r diwrnodau cyflog perthnasol yn unol â pharagraff (1) pe byddai -

(i) cyfran gyfartal o'r swm a dalwyd ymlaen llaw wedi'i thalu ar bob un o'r diwrnodau hynny; a

(ii) phe byddai enillion net y dyledwr ar bob un o'r diwrnodau hynny yn swm cyfwerth â'r gyfran honno.

(3) Pan fo'r swm sy'n daladwy i'r dyledwr ar unrhyw ddiwrnod cyflog yn cael ei ostwng oherwydd bod taliad wedi'i wneud iddo ymlaen llaw neu oherwydd bod y dyledwr yn ad-dalu benthyciad a wnaethpwyd iddo gan ei gyflogwr am unrhyw reswm, enillion net y dyledwr ar gyfer y diwrnod hwnnw, i ddibenion paragraff (1), fydd y swm a bennir yn rheoliad 32(1) heb gyfrif swm y gostyngiad.

(4) Yn amodol ar baragraffau (5) a (6), pan fo enillion y dyledwr gan y cyflogwr yn daladwy ar gyfnodau rheolaidd ac eithrio cyfnodau sy'n dod dan amodau baragraff (1), bydd y swm i'w dynnu ar unrhyw ddiwrnod talu yn cael ei bennu trwy wneud y canlynol -

(a) cyfrif beth fyddai'i enillion net dyddiol trwy rannu'r enillion net sy'n daladwy iddo gan y cyflogwr ar y diwrnod cyflog â nifer y diwrnodau yn y cyfnod hwnnw,

(b) canfod canran neu ganrannau a bennir yng ngholofn 2 Tabl C Atodlen 4 gyferbyn â'r band yng ngholofn 1 y Tabl sy'n gymwys ar gyfer yr enillion net a gyfrifwyd dan is-baragraff (a), a

(c) gyfrif y swm sydd gyfwerth â'r ganran (neu ganrannau) priodol ar gyfer yr enillion net dyddiol a gyfrifwyd a lluosi'r swm hwnnw â nifer y diwrnodau yn y cyfnod.

(5) Pan fo enillion y dyledwr yn daladwy fel y nodwyd ym mharagraff (4), a'r swm i'w dalu i'r dyledwr ar unrhyw ddiwrnod cyflog yn cynnwys tâl ymlaen llaw, bydd swm enillion net y dyledwr ar unrhyw ddiwrnod cyflog yn cynnwys tâl ymlaen llaw, bydd swm enillion net y dyledwr dan is-baragraff (a) y paragraff hwnnw yn cael ei chyfrif yn unol â'r fformwla -

$$\frac{A + B}{C + D}$$

lle bo -

A yn swm yr enillion net sy'n daladwy iddo ar y diwrnod cyflog hwnnw (heb gyfrif y swm a delir ymlaen llaw);

B yn swm a delir ymlaen llaw;

C yn nifer y diwrnodau yn y cyfnod talu enillion net; a

D yw nifer y diwrnodau yn y cyfnod y byddai'r swm a dalwyd ymlaen llaw yn daladwy pe na byddai'r cytundeb wedi'i wneud i'w dalu ymlaen llaw.

(6) Mae paragraff (3) i'w weithredu ynglŷn a paragraff (4) fel y mae i'w weithredu i baragraff (1).

(7) Pan fo enillion yn daladwy i'r dyledwr gan y cyflogwr mewn 2 gyfres neu fwy o daliadau ar gyfnodau rheolaidd -

(a) os yw rhai o'r cyfnodau, neu bob un ohonynt, o hyd gwahanol -

(i) i ddibenion pennu swm i'w dynnu, bydd pa bynnag un o baragraffau (1), (2), (3), (4), (5) a (6) sy'n briodol i'w cymhwyso i'r gyfres ac iddo'r cyfnod lleiaf (neu, os oes mwy nag un gyfres ac iddi'r cyfnod lleiaf, yr un o'r cyfresi hynny a ddewisir gan y cyflogwr), ac

(ii) mewn perthynas ag enillion sy'n daladwy ym mhob cyfres arall, y swm i'w thynnu fydd 20 y cant o'r enillion net neu, pan fo tâl ymlaen llaw yn cael ei wneud ar unrhyw ddiwrnod cyflog, 20 y cant o'r cyfanswm enillion net a'r swm a dalwyd ymlaen llaw;

(b) os yw'r holl gyfnodau o'r un hyd, bydd pa bynnag un o baragraffau (1), (2), (3), (4), (5) a (6) sy'n briodol i'w gymhwyso i'r gyfres a ddewisir gan y cyflogwr a bydd is-baragraff (a)(ii) i'w gymhwyso i bob cyfres arall,

a bydd paragraff (3) i'w gymhwyso mewn perthynas ag is-baragraff (a)(ii) uchod fel y mae i'w gymhwyso mewn perthynas â pharagraff (1).

(8) Yn amodol ar baragraffau (9) a (10), pan fo enillion y dyledwr gan y cyflogwr yn daladwy ar gyfnodau afreolaidd, bydd y symiau i'w tynnu ar unrhyw ddiwrnod cyflog yn cael eu pennu trwy wneud y canlynol -

(a) cyfrif beth fyddai ei enillion net dyddiol trwy rannu'r enillion net sy'n daladwy iddo gan y cyflogwr ar y diwrnod cyflog -

(i) â nifer y diwrnodau ers i'w enillion gael eu talu ddiwethaf iddo gan y cyflogwr, neu

(ii) os mai'r enillion yw'r enillion cyntaf i fod yn daladwy gan y cyflogwr iddo mewn perthynas â'r gwaith dan sylw, â nifer y diwrnodau ers dechrau yn y gwaith;

(b) cyfrif y ganran (neu ganrannau) a bennir yng ngholofn 2 Tabl C Atodlen 4 gyferbyn â'r band yng ngholofn 1 y Tabl ar gyfer yr enillion net a gyfrifwyd dan isbaragraff (a); a

(c) chyfrif y swm sydd gyfwerth â chanran (neu ganrannau) priodol yr enillion net dyddiol a lluosi'r swm honno â'r un rhif a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhannu i ddibenion y swm a nodwyd yn is-baragraff (a).

(9) Pan fo enillion yn daladwy ar yr un diwrnod cyflog i'r dyledwr gan y cyflogwr ar gyfer enillion a delir ar gyfnodau rheolaidd ag enillion a delir ar gyfnodau afreolaidd, i ddibenion pennu swm i'w dynnu ar y diwrnod cyflog dan ddarpariaethau blaenorol y rheoliad hwn bydd yr holl enillion yn cael eu cyfrif gyda'i gilydd a'u trin fel enillion sy'n daladwy ar gyfnod rheolaidd.

(10) Pan fo enillion yn daladwy i'r dyledwr gan y cyflogwr ar gyfnodau rheolaidd ar un diwrnod cyflog, ac enillion yn daladwy gan y cyflogwr iddo ar gyfnodau afreolaidd ar ddiwrnod cyflog gwahanol, y swm i'w dynnu ar bob un o'r diwrnodau cyflog lle mai enillion sy'n daladwy ar gyfnodau afreolaidd a delir fydd 20 y cant o'r enillion net sy'n daladwy iddo ar y diwrnod hwnnw.

Gorchmynion Didynnu o Enillion:
dyletswyddau a hawliau ategol cyflogwyr ac eraill a wasanaethir

39. - (1) Gall cyflogwr sy'n didynnu a thalu symiau a'u talu dan orchymyn didynnu o enillion, ar bob achlysur y mae'n tynnu swm o'r fath, hefyn dynnu swm o bunt o enillion y dyledwr tuag at gostau gweinyddol.

(2) Bydd cyflogwr sy'n didynnu a thalu symiau a'u talu dan orchymyn didynnu enillion, yn unol â pharagraff (3), yn hysbysu'r dyledwr yn ysgrifenedig ynglŷn â'r canlynol -

(a) cyfanswm y symiau (gan gynnwys symiau a dynnwyd dan baragraff (1) a dynnwyd dan y gorchymyn hyd at amser yr hysbysiad; neu

(b) cyfanswm y symiau (gan gynnwys symiau a dynnwyd dan baragraff (1) a fydd yn cael eu tynnu wedi'r amser hwnnw.

(3) Mae rhaid i hysbysiad dan baragraff (2) gael ei roi ar yr amser pan fo'r adroddiad tâl nesaf a roddir gan y cyflogwr i'r dyledwr wedi i swm gael ei dynnu gael ei roi, neu os nad yw adroddiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi fel rheol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i'r swm gael ei dynnu.

(4) Bydd unrhywun y rhoddwyd copi o orchymyn didynnu o enillion iddo, yn unol â pharagraff, yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r awdurdod a wnaeth y gorchymyn os nad yw'r dyledwr sy'n destun y gorchymyn yn gweithio iddo neu os yw'r dyledwr yn rhoi'r gorau i weithio iddo wedi hynny.

(5) Mae rhaid rhoi rhybudd yn unol â pharagraff (4) cyn pen 14 diwrnod i gyflwyno'r copi neu i'r dyledwr roi'r gorau i weithio iddo (yn ôl yr achos penodol).

(6) Tra bo gorchymyn didynnu o enillion mewn grym, bydd unrhyw un sy'n cyflogi'r dyledwr ac sy'n gwybod bod y gorchymyn mewn grym a'r awdurdod sy'n sail iddo yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig ei fod yn cyflogi'r dyledwr.

(7) Mae rhaid rhoi rhybudd dan ofynion paragraff (6) o cyn pen 14 diwrnod i'r diwrnod y daeth y cyflogwr i gyflogi'r dyledwr neu'r diwrnod y daeth y dyledwr i wybod bod y gorchymyn mewn grym a'r awdurdod sy'n sail iddo, pa bynnag un ddaw olaf.

Gorchmynion Didynnu o Enillion: Dyletswyddau Dyledwyr

40. - (1) Tra bo gorchymyn didynnu o enillion mewn grym, bydd y dyledwr sy'n destun y gorchymyn yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod a fu'n gyfrifol am y gorchymyn ynglŷn â phob tro y mae'n gadael cyflogaeth neu'n cael ei gyflogi neu'i ail-gyflogi, ac (mewn achosion o gyflogi neu ail-gyflogi) bydd yn cynnwys yn yr hysbysiad ddatganiad ynglŷn â'r canlynol -

(a) ei enillion a'r enillion disgwyliedig (cyn belled ag y bo hynny'n bosib) o'r gyflogaeth sydd dan sylw,

(b) symiau a dynnwyd a symiau y disgwylir eu tynnu (cyn belled ag y bo hynny'n bosib) o'r enillion hynny -

(i) ar gyfer treth incwm;

(ii) ar gyfer cyfraniadau syfaenol Dosbarth 1 dan Ran 1 Deddf 'Cyfraniadau a Buddion Nawdd Cymdeithasol' 1992;

(iii) i ddibenion cynllun pensiwn blwydd-dal a nodir yn y diffiniad o "enillion net" yn rheoliad 32(1),

(c) enw a chyfeiriad y cyflogwr, a

(d) rhif cyflogres neu rif a nodwyd i'w adnabod yn y gwaith (os yw'n briodol).

(2) Mae rhaid rhoi hysbysiad dan baragraff (1) cyn pen 14 diwrnod i'r diwrnod y mae'r dyledwr yn gadael neu'n cychwyn (neu'n ailgychwyn) cyflogaeth (yn ôl yr achos penodol), neu (os yw wedi hynny) diwrnod ei hysbysu gan yr awdurdod fod y gorchymyn wedi'i wneud.

Gorchmynion Didynnu o Enillion:

41. – (1) Pan fo'r swm cyfan sy'n sail i'r gorchymyn didynnu o enillion wedi'i dalu (boed hynny trwy ddidynnu o enillion neu fel arall), bydd yr awdurdod a wnaeth y gorchymyn yn rhoi rhybudd ynglŷn â hynny i'r sawl sydd, ym marn yr awdurdod, yn cyflogi'r dyledwr ac sydd wedi derbyn copi o'r gorchymyn.

(2) Gall yr awdurdod a baratôdd orchymyn didynnu o enillion benderfynu ei hun neu ar gais y dyledwr neu gyflogwr y dyledwr, wneud gorchymyn i ddileu'r gorchymyn didynnu o enillion; ac os bydd yn gwneud hynny, bydd yn rhoi rhybudd o hynny i'r sawl sydd, ym marn yr awdurdod, yn cyflogi'r dyledwr ac sydd wedi derbyn copi o'r gorchymyn.

(3) Os bydd yr awdurdod yn rhoi copi o orchymyn didynnu o enillion yn unol â gofynion rheoliad 37(3), bydd hefyd yn rhoi copi o'r gorchymyn (oni bai ei fod wedi gwneud hynny eisoes) i'r dyledwr.

Blaenoriaeth rhwng gorchymion

42. – (1) Pan fyddai rhaid i gyflogwr dynnu enillion ar unrhyw ddiwrnod cyflog ar gyfer mwy nag un gorchymyn didynnu o enillion, mae gofyn iddo drafod y gorchymion paratoi hynny yn ôl dyddiadau eu paratoi. Mae rhaid iddo drafod y gorchymyn diweddaraf fel pe bai'r enillion y mae'n cyfeirio atyn n nhw'n weddill enillion y dyledwr wedi tynnu symiau ar gyfer y gorchymyn cynharach.

(2) Lle bo'r cyflogwr, neu lle byddai'r cyflogwr, oni bai am y paragraff hwn, yn gorfod cydymffurfio ar unrhyw amser â gorchymyn didynnu o enillion a wnaethpwyd dan y Rhan hon Cynnal Plant 1991 ("Deddf 1991")(b) -

(a) os mai'r gorchymyn a wnaethpwyd dan Ddeddf 1971 neu Ddeddf 1991, yn dibynnu ar y achos penodol, a wnaethpwyd gyntaf, tra bo'r gorchymyn hwnnw mewn grym bydd yn cydymffurfio â'r gorchymyn a wnaethpwyd dan Ddeddf 1971 neu Ddeddf 1991, yn dibynnu ar y achos penodol, yn unig, neu

(b) os mai'r gorchymyn atal enillion a wnaethpwyd dan y Rhan hon a wnaethpwyd gyntaf, tra bo'r gorchymyn mewn grym bydd enillion i'w hatal i ddibenion Atodelen 3 Deddf 1971 yn cael eu cyfrif fel yr enillion i'w hatal a nodwyd ym mharagraff 3 yr Atodlen honno (c) sydd ar ôl wedi tynnu'r swm i'w dynnu dan y gorchymyn a wnaethpwyd dan y Rhan hon.

(a) 1971 c.32.

(b) 1991 c.48.

(c) Addaswyd paragraff 3 Atodlen 3 gan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau 'l-ddilynol) 1975 (c.18), Atodlen 2, paragraff 43, Deddf Pensiynau Nawdd Cymdeithasol 1975 (c.60), Atodlen 5 Deddf Cyflogau 1986 (c.48), Atodlen 4, paragraff 4.

Atodlen 4

Symiau i'w didynnu dan ofynion Gorchymyn Didynnu o Enillion

TABL A
SYMIAU I'W TYNNU O ENILLION WYTHNOSOL

(1) **ENILLION CLIR**	(2) **GRADDFA DIDYNNU (%)**
Heb fod dros £75	0
Dros £75 ond yn llai na £135	3
Dros £135 ond yn llai na £185	5
Dros £185 ond yn llai na £225	7
Dros £225 ond yn llai na £355	12
Dros £355 ond yn llai na £505	17
Dros £505	17 ar gyfer y £505 cyntaf a 50 ar gyfer y gweddill

TABLE B
SYMIAU I'W TYNNU O ENILLION MISOL

(1) **ENILLION CLIR**	(2) **GRADDFA DIDYNNU (%)**
Heb fod yn fwy na £300	0
Dros £300 ond yn llai na £550	3
Dros £550 ond yn llai na £740	5
Dros £740 ond yn llai na £900	7
Dros £900 ond yn llai na £1,420	12
Dros £1,420 ond yn llai na £2,020	17
Dros £2,020	17 ar gyfer y £2,020 cyntaf a 50 ar gyfer y gweddill

TABLE C
SYMIAU I'W TYNNU O ENILLION DYDDIOL

(1) **ENILLION NET**	(2) **GRADDFA TYNNU ARIAN (%)**
Heb fod dros £11	0
Dros £11 ond yn llai na £20	3
Dros £20 ond yn llai na £27	5
Dros £27 ond yn llai na £33	7
Dros £33 ond yn llai na £52	12
Dros £52 ond yn llai na £72	17
Dros £72	17 ar gyfer y £72 cyntaf a 50 ar gyfer y gweddill

Atodiad B

Tabl A

Blaenoriaethu rhwng Gorchmynion 'Didynnu o Enillion' Treth y Cyngor lle bydd y gorchmynion wedi'u rhoi ar ôl 31.03.93

		YR HYN SYDD EI ANGEN I'R CYFLOGWR EI WNEUD	RHEOLIADAU PERTHNASOL:
GAC Treth y Cyngor	a GAC y Treth y Cyngor	cymhwyso'r gorchynyn yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddarach i weddill enillion (ond gweler nodyn 3)	rheoliad 42(1) Rheoliadau ' Treth y Cyngor (Gweinyddu a Gorfodi) - (SI 1992/613 o'i ddisodli gan SI 19992/308 a 1998/295)
	a GDC Deddf 1971	cymhwyso'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddaraf i weddill enillion (ond gweler nodyn 3)	rheoliad 42(1) Reoliadau 'Treth y Cyngor (Gweinyddu a Gorfodi) - (SI 1992/613 o'i dissodi gan SI 1992/308)
	a GTC Cynhaliaeth Plant	cymhwyso'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddaraf i weddill enillion	rheoliad 42(1) Rheoliadau 'Treth y Cyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (OS1992/613, fel y'u mewnosodwyd gan SI 1992/613 o'i ddisodli gan SI 1992/308
	a GDC treth cymunedol	prosesu'r GACTC pan ddaw i law, ddaw, gan ei gymhwyso i weddill yr enillion	enillion net, yn diffiniad rheoliad 27(1) o Rheoliadau 'Treth Cymuned (Gwcinyddu a Gorfodi) - gw. SI 1989/438 a newid yn sgîl 1989/438 a SI 1993/775
GDC treth cymuned	a GDC treth cymuned	cymhwyso'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddaraf i weddill enilion	rheoliad 37A (2) Rheoliadau 'Treth Cymuned (Gweinyddu a Gorfodi) gw. ychwanegiad yn 1989/438 trwy SI 1993/775
	a GDC Deddf 1971	cymhwyso'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddaraf i weddill gw. nodyn (2))	rheoliad 37A (2) Rheoliadau 'Treth Cymuned (Gweinyddu a Gorfodi) gw. ychwanegiad yn SI 1992/438 trwy SI 1993/775
	a GDC Cynhaliaeth Plant	cymhwyso'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddaraf i weddill enillion	rheoliad 24 Rheoliadau 'Cynhaliaeth Plant (Casglu a Gorfodi) (SI 1992/1989)
newid	a GDC y treth y cyngor	prosesu GDC treth cymuned pan ddaw, gan ei gymhwyso i weddill yr enillion	Enillion net, yn diffiniad rheoliad 32 SI 1992/613, wedi'i gan SI 1993/773

Nodyn (1): - chaiff cyflogwr ddim rhoi sylw i orchymyn nad ydy e'n flaenoriaeth tan y bydd wedi trafod GDC treth y cyngor neu GDC ac unrhyw orchymyn arall dan ofynion Deddf 'Didynnu o'r Cyflog 1971 neu adran 31(2) o Deddf 'Cynhaliaeth Plant' 1991. Yn y cyd-destun hwnnw diffinnir gorchymyn nad ydy e'n flaenoriaeth yn nhermau un sydd wedi'i roi ar ôl 1 Ebrill 1971 dan ofynion Deddf 1971 naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol mewn perthynas â dyfarniad dyled neu daliadau dan ofynion gorchymyn gweinyddu.

Nodyn (2): - chaiff cyflogwr ddim rhoi sylw i orchymyn nad ydy e'n flaenoriaeth tan y bydd wedi trafod GDC treth ymuned neu GDC ac unrhyw orchymyn arall dan ofynion Deddf 'Didynnu o'r Cyflog 1971 neu adran 31(2) o Ddeddf 'Cynhaliaeth Plant' 1991. Yn y cyd-destun hwnnw diffinnir gorchymyn nad ydy e'n flaenoriaeth yn nhermau un sydd wedi'i roi ar ôl 1 Ebrill 1971 dan ofynion Deddf 1971 naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol mewn perthynas â dyfarniad dyled neu daliadau dan ofynion gorchymyn gweinyddu.

Nodyn (3): - chaiff cyflogwr ddim gweithredu GDC treth y cyngor os oes dau GDC treth y cyngor yn cael eu talu'n barod. Fe ddylid rhoi gwybod am hynny i'r awdurdod lleol.

Tabl B

Blaenoriaethu rhwng Gorchmynion 'Didynnu o Enillion' Treth Cymuned a GDC Deddf 1971 lle bydd y gorchmynion wedi'u rhoi cyn 31.03.93 a GDCau eraill

		YR HYN SYDD EI ANGEN I'R CYFLOGWR EI WNEUD	RHEOLIADAU PERTHNASOL:
Gorchymyn Treth y cymunedol wedi'i roi cyn 1 Ebrill 1993	gorchymyn Deddf 1971 wedi'i dderbyn	cymhwyso gorchymyn Deddf 1971 ar sail gweddill yr enillion	rheoliad 37(2) Rheolidau 'Treth Cymuned (Gweinyddu a Gorfodi)' - SI 1989/438
	derbyn gorchymyn treth cymuned arall wedi'i rhoi cyn 31 Mawrth 1993	rhaid aros nes bod dyled y gorchymyn treth cymuned cyntaf wedi'i chlirio	rheoliad 37(1) Reoliadau 'Treth Cymuned (Gweinyddu a Gorfodi sydd wedi'i gyflawni)' - SI 1989/438
	derbyn gorchymyn treth cymuned arall wedi'i rhoi ar ôl 31 Mawrth 1993	rhaid aros nes bod dyled y gorchymyn treth cymuned cyntaf wedi'i chlirio	(Rheoliad newydd 37A wedi'i rhoi i mewn dan ofynion SI 1993/775 ac yn berthnasol i orchmynion sydd wedi'iu rhoi ar ôl 31 Mawrth 1993 yn unig)
	derbyn gorchymyn Deddf 'Cynhaliaeth Plant'	cymhwyso gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddaraf i weddill enillion	rheoliad 24(2)(b) o'r Rheoliadau 'Cynhaliaeth Plant (Casglu a Gorfodi)' - SI 1992/1989
	derbyn gorchymyn treth y cyngor	prosesu gorchymyn y treth cyngor pan ddaw ar sail 'gweddill enillion'	enillion net, yn ôl diffiniad rheoliad 32 Rheoliadau 'Treth y Cyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (SI 1992/613) fel y'i newidiwyd gan SI 1993/773
Gorchymyn Deddf 1971 a wedi'i roi cyn 1 Ebrill 1993 yn rhan o'r taliad	derbyn gorchymyn treth cymuned wedi'i roi cyn 31 Mawrth 1993	rhaid aros nes clirio gorchymyn dan ofynion Deddf 1971	rheoliad 37(2) (a) Rheoliadau Treth Cymuned (Gweinyddu a Gorfodi) SI 1989/438
	derbyn gorchymyn treth cymuned ôl 31 31 Mawrth 1993	rhaid aros nes clirio gorchymyn dan ofynion Deddf 1971	(rheoliad newydd 37A wedi'i rhoi i mewn dan ofynion SI 1993/775 ac yn berthnasol i orchmynion sydd wedi'u rhoi ar ôl 31 Mawrth 1993 yn unig)
	drebyn GDC treth y cyngor	cymhwyso'r gorchmynion yn nhrefn eu dyddiad, gan gymhwyso'r un diweddaraf i weddill enilion (ond gw. nodyn (1)	Rheoliad 42(2) Rheoliadau 'Treth y Cyngor (Gweinyddu a Gorfodi)' - SI 1992/613, wedi'i ddisodli gan SI 1992/308

Nodyn (1): - chaiff cyflogwr ddim rhoi sylw i orchymyn nad ydy e'n flaenoriaeth tan y bydd wedi trafod GDC treth y cyngor neu GDC ac unrhyw orchymyn arall dan ofynion Deddf 'Didynnu o'r Cyflog 1971 neu adran 31(2) o Deddf 'Cynhaliaeth Plant' 1991. Yn y cyd-destun hwnnw diffinnir gorchymyn nad ydy e'n flaenoriaeth yn nhermau un sydd wedi'i roi dan ofynion Deddf 1971 naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol mewn perthynas â dyfarniad dyled neu daliadau dan ofynion gorchymyn gweinyddu.